

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2021. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Julie James AS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
02 Chwefror 2021

RHAN 1

1. Disgrifiad

Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2021

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim

3. Y Cefndir Deddfwriaethol

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ("y Mesur")

3.1 Cyflwynodd Rhan 2 o'r Mesur hawl newydd i absenoldeb teuluol ar gyfer cynghorwyr yn ddarostyngedig i amodau a ragnodir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Roedd darpariaethau'r Mesur yn cyfyngu ar uchafswm y cyfnod absenoldeb y gellid ei bennu yn y rheoliadau ar gyfer pob un o'r pum math o absenoldeb teuluol: absenoldeb mamolaeth; absenoldeb newydd-anedig; absenoldeb mabwysiadwydd; absenoldeb mabwysiadu newydd ac absenoldeb rhiant.

Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 ("rheoliadau 2013")

3.2 Mae'r hawl a grëwyd gan y Mesur yn ddibynnol ar yr amod bod Aelodau yn bodloni amodau a ragnodir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau. Cafodd yr amodau hyn eu nodi yn rheoliadau 2013 a ddaeth i rym ar 5 Rhagfyr 2013. Yr amodau o ran absenoldeb mabwysiadwydd yw mai'r aelod yw mabwysiadwydd y plentyn a'i fod yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i bennaeth y gwasanaethau democrataidd o'r dyddiad y mae'n bwriadu i'r absenoldeb mabwysiadwydd ddechrau.

3.3 Mewn perthynas ag uchafswm y cyfnodau absenoldeb, mae'r rheoliadau yn adlewyrchu'r terfynau a nodir yn y Mesur.

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("y Ddeddf")

3.4 Dilëwyd y cyfyngiadau ar uchafswm y cyfnodau absenoldeb o'r Mesur gan adran 61 o'r Ddeddf, gan alluogi gosod y rhain ar unrhyw lefel drwy reoliadau.

Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2021 ("y rheoliadau")

3.5 Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio rheoliadau 2013 ac yn cynyddu cyfnod absenoldeb mabwysiadwydd o ddwy wythnos i 26 wythnos. Maent hefyd, lle y

bo'n ymarferol, yn gwneud y darpariaethau sy'n rheoli absenoldeb mabwysiadwydd yn gyson â'r trefniadau ar gyfer absenoldeb mamolaeth.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae'r Rheoliadau yn diwygio rheoliadau 2013 i gynyddu'r hawl i absenoldeb mabwysiadwydd o ddwy wythnos i 26 wythnos. Bydd hyn yn golygu y bydd yr un cyfnodau o absenoldeb mamolaeth ac absenoldeb mabwysiadwydd ar gael o dan reoliadau 2013.

4.2 Mae'r rheoliadau hefyd yn gwneud nifer o newidiadau i sefydlu trefniadau ar gyfer absenoldeb mabwysiadwydd sy'n debyg i'r rhai sydd eisoes ar waith ar gyfer absenoldeb mamolaeth. Yn benodol, mae'r rheoliadau yn gwneud y canlynol:

- Mae rheoliad 2(2) yn rhoi rheoliad 14 newydd yn lle'r un bresennol, sy'n rhagnodi amodau y mae rhaid i aelod eu bodloni er mwyn bod yn gymwys ar gyfer absenoldeb mabwysiadwydd. Mae hefyd yn rhagnodi gweithdrefnau ar gyfer amrywio dyddiad dechrau a hyd absenoldeb mabwysiadwydd.
- Mae rheoliad 2(3) yn rhoi rheoliad 15 newydd yn lle'r un bresennol, sy'n darparu mai cyfnod absenoldeb mabwysiadwydd yw 26 wythnos (ar yr amod bod yr aelod yn rhoi hysbysiad o dan y rheoliad 14 newydd). Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch y cyfnod absenoldeb pan fabwysiadir mwy nag un plentyn fel rhan o'r un trefniant.
- Mae rheoliad 2(4) yn rhoi rheoliad 16 newydd yn lle'r un bresennol, sy'n rhagnodi pryd y caniateir i gyfnod absenoldeb mabwysiadwydd ddechrau.
- Mae rheoliad 2(5) yn rhoi rheoliad 17 newydd yn lle'r un bresennol, sy'n darparu, yn ddarostyngedig i'r rheoliad 16 newydd, y caniateir i aelod ddewis pryd y mae ei absenoldeb mabwysiadwydd yn dechrau.
- Mae rheoliad 2(6) yn mewnosod rheoliad 17A newydd sy'n rhagnodi sut y caiff aelod derfynu cyfnod absenoldeb mabwysiadwydd.
- Mae rheoliad 2(7) yn diwygio rheoliad 38(1) er mwyn cymhwyso ar gyfer absenoldeb mabwysiadwydd yr un weithdrefn ar gyfer pennu a gaiff aelod gyflawni dyletswyddau penodol yn ystod ei absenoldeb mabwysiadwydd â'r weithdrefn ar gyfer aelodau sydd am gyflawni dyletswyddau penodol yn ystod absenoldeb mamolaeth.

5. Ymgynghori

5.1 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'r newidiadau yn y rheoliadau hyn rhwng 3 Tachwedd 2020 a 29 Rhagfyr 2020. Yn sgil ceisiadau parhaus gan brif gynghorau a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'r rheoliadau gael eu diweddarau, cytunwyd ar gyfnod ymgynghori byrrach gyda rhanddeiliaid. Daeth cyfanswm o 27 o ymatebion i law. O'r ymatebion hyn, roedd wyth gan aelodau unigol o'r cyhoedd, roedd 16 gan gynghorwyr neu gynrychiolwyr cynghorau, cafwyd

dau gan sefydliadau eraill a chafodd gweddiill yr ymatebion eu cyflwyno'n ddiennw.

- Cwestiwn 1 – Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oeddent yn cytuno â'r cynnydd arfaethedig yn hyd absenoldeb mabwysiadwydd ar gyfer cynghorwyr o ddwy wythnos i 26 wythnos i gyd-fynd â threfniadau tebyg ar gyfer absenoldeb mamolaeth.

Roedd 100% o gefnogaeth dros y cynnydd arfaethedig.

- Cwestiwn 2 – Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oeddent yn cytuno â'r newidiadau manwl a oedd wedi'u nodi ym mharagraff 12 o'r ddogfen ymgynghori.

Roedd 100% o gefnogaeth dros y newidiadau manwl.

- Cwestiwn 3 – Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oedd y canllawiau statudol diwygiedig a oedd wedi'u cynnwys yn y ddogfen ymgynghori yn adlewyrchu'r newidiadau arfaethedig.

Roedd 16 (88.89%) o'r ymatebwyr yn cytuno bod y canllawiau statudol diwygiedig yn adlewyrchu'r newidiadau arfaethedig a oedd wedi'u nodi yn yr ymgynghoriad. Mynegwyd peth pryder gan nifer bach o ymatebwyr ynghylch paragraff 17 o'r canllawiau diwygiedig. Awgrymwyd y dylid aileirio un agwedd ar y canllawiau er mwyn ei gwneud yn fwy eglur. Mae'r mater hwn wrthi'n cael ei ystyried ymhellach, ond nid oes angen unrhyw newidiadau i'r rheoliadau fel y'u drafftwyd.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Yr Opsiynau

Ystyriwyd dau opsiwn, sef:

- Opsiw 1 – Gwneud dim a pheidio â gwneud y rheoliadau
- Opsiw 2 – Gwneud y rheoliadau

Y costau a'r manteision

Opsiw 1 – Gwneud dim a pheidio â gwneud y rheoliadau

Dyma'r opsiwn sylfaenol ac, yn hynny o beth, nid oes unrhyw gostau na manteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Fodd bynnag, byddai gwneud dim yn atal awdurdodau lleol rhag rhoi trefniadau ar waith i gysoni'r cyfnodau absenoldeb sydd ar gael ar gyfer rhieni biolegol a rhieni nad ydynt yn rhieni biolegol.

Opsiw 2 – Gwneud y rheoliadau

Ni ddisgwylir i'r rheoliadau gael effaith ariannol sylweddol. Mae data ar StatsCymru¹ yn dangos bod rhwng 300 a 400 o blant sy'n derbyn gofal wedi'u mabwysiadu yng Nghymru bob blwyddyn rhwng 2014 a 2019. Cyfanswm nifer aelodau cynghorau yng Nghymru yw 1,254. O ystyried mai tua 1.9 miliwn yw cyfanswm y boblogaeth oedran gweithio yng Nghymru ac o gymryd yn ganiataol nad oes gan aelodau cynghorau duedd sylweddol uwch i fabwysiadu nag aelodau o'r boblogaeth gyffredinol, mae hyn yn awgrymu bod nifer yr aelodau cynghorau sy'n mabwysiadu plentyn mewn unrhyw flwyddyn benodol yn debygol o fod yn fach iawn ac o bosibl yn ddim. Ni ddisgwylir i'r rheoliadau newid hynny.

Mae adroddiad blynyddol diweddaraf Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol² yn nodi bod gan aelod etholedig hawl i gael ei gyflog sylfaenol yn ystod cyfnod o absenoldeb teuluol ac y dylai deiliad uwch-gyflog barhau i gael y cyflog hwnnw yn ystod absenoldeb teuluol. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi mai mater i'r Cyngor unigol yw penderfynu a ddylid penodi rhywun i ddirprwyo ar ran unrhyw ddeiliad uwch-gyflog sy'n cymryd absenoldeb teuluol ac a ddylid talu uwch-gyflog i'r sawl a benodir yn ei le. Bydd cost ychwanegol os bydd cyngor yn penodi rhywun i ddirprwyo ac yn dewis talu uwch-gyflog i'r aelod. Ystyrir ei bod yn fwy tebygol y byddai rhywun yn cael ei benodi i ddirprwyo â thâl os bydd y cyfnod absenoldeb mabwysiadu yn 26 wythnos yn hytrach na dwy wythnos.

Yn seiliedig ar y ffigurau cyflogau yn adroddiad y Panel, pe bai deiliad uwch-gyflog yn cymryd 26 wythnos o absenoldeb mabwysiadu yna ni fyddai disgwyl i'r cyflog ychwanegol a allai gael ei dalu i ddirprwy yn ystod y cyfnod hwn fod yn fwy nag £20,000. Yn ogystal, byddai cost weinyddol fach er mwyn i'r Cyngor roi gwybod i'r Panel am y dirprwy a benodwyd â thâl ac i'r Cyngor ddiwygio ei restr cydnabyddiaeth ariannol.

Bydd y rheoliadau yn galluogi aelodau cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, sy'n mabwysiadu plant, i elwa ar yr un lefel o absenoldeb ag aelodau awdurdodau lleol sy'n rhoi geni i blentyn. Bydd hyn yn galluogi rhieni biolegol a rhieni sy'n mabwysiadu i gymryd yr un faint o absenoldeb teuluol i'w galluogi i ddarparu amgylchedd cefnogol a meithringar i'w plant yn y cyfnod cynnar o ddatblygu perthynas a bondio. Mae hwn yn ddiwygiad pwysig o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer aelodau etholedig lleol.

Asesu'r Gystadleuaeth

Ni ddisgwylir i'r rheoliadau effeithio ar lefelau cystadleuaeth yng Nghymru na chystadleurwydd busnesau Cymru.

¹ <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/Children-Looked-After/Adoptions/adoptionsoflookedafterchildrenduringyearendng31march-by-age-gender>

² <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/adroddiad-blynyddol-2020-i-2021.pdf>